

## Bedydd

Yn yr Oedfa Deulu yn Capel Coch fore Sul diwethaf bedyddiwyd Dyfan, mab bach Aled a Ffion Wyn Hughes, Marteg, Llanberis. Roedd yn braf cael croesawu eu teuluoedd i'r oedfa. Ein cyfrifoldeb a'n baint ninnau, aelodau'r eglwys yn Capel Coch, fydd cael bod o gefn i Ffion ac Aled wrth iddynt trwy ras a nerth Duw roi magwrfa Gristnogol i'w plant.

## Y Gymdeithas

Bydd cyfle i wneud cardiau Nadolig yn y Gymdeithas Undebol yn Llanberis nos Fawrth yr wythnos hon, Tachwedd 6.

## Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig Capel Bethlehem, Talybont am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Tachwedd 28. Bydd croeso cynnes i bawb.

## Sul y Cofio

Bydd gwasanaeth Sul y Cofio Deiniolen wrth y gofeb am 9.15 o'r gloch fore Sul nesaf, Tachwedd 11.

## Hen stampiau

Rydym yn dal i gasglu hen stampiau yn Capel Coch. Rhowch nhw yn y bocs yng nghyntedd y capel os gwelwch yn dda.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Tachwedd 11

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

#### Tachwedd 18

5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Tachwedd 25

5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Nos Wener, Tachwedd 9 (6.00–8.00 o'r gloch) a Bore Sadwrn, Tachwedd 10 (10.00–12.00 o'r gloch):** Cyfle i aelodau Ebeneser ddatgan diddordeb mewn prynu meinciau ac ati o'r festri.

**Sul, Tachwedd 11:** Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch yn **Nhŷ Elidir** gan Mr Robert Morris, Penygroes.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Fawrth, Tachwedd 6:** Noson grefft - Gwneud Cardiau Nadolig.

**Nos Wener, Tachwedd 9:** CIC am 7.00 o'r gloch.

**Sul, Tachwedd 11:** Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

### CARMEL

**Nos Wener, Tachwedd 9:** DwyloPrysur am 6.30 o'r gloch.

**Sul, Tachwedd 11:** Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Gwyndaf Jones.

### BETHLEHEM

**Sul, Tachwedd 11:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### REHOBOTH

**Sul, Tachwedd 11:** Ni chynhelir oedfa.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Tachwedd 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Tachwedd 18

10.00 a.m. - Mr Dafydd Iwan

11.15 a.m. - Ysgol Sul

#### Tachwedd 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu (Bedydd)

Gofalaeth Fro'r  
Llechen Las

Rhif 773  
04 Tachwedd, 2018

# Gronyn

## Golau newydd



Weithiau, rwy'n diolch 'mod i'n ddwl. Pe na fyddwn mor ddwl, fyddwn i ddim er enghraifft yn medru sgwennu'r erthygl hon. Mae ffordd yr A470 yn ddfilas ar y gorau ond yn waeth fyth os oes unrhyw beth yn bod ar y car. Ar y lôn honno y sylweddolais i'r noson o'r blaen nad oedd goleuadau llawn y car yn gweithio. Roedd y golau'n iawn wedi ei ostwng (neu ar y 'dip') ond yn anwadal ar y golau llawn. Un funud, roedd yn gweithio'n iawn ond y funud nesaf doedd o ddim. Gan fod y 'golau dip' yn iawn doedd dim peryg i mi ddallu gyrrwyr eraill, ac felly doedd o ddim yn ormod o broblem. Ond yr oedd o'n rhwystredig. Mi gyrhaeddais adref yn ddiogel, ond mi wyddwn y byddai raid mynd â'r car i'r garej cyn gynted â phosibl er mwyn datrys y broblem.

Dridiau'n ddiweddarach, heb gyrraedd y garej y mae'r car. A does gen i ddim bwriad i fynd ag o yno gan fy mod, drannoeth y daith adra, wedi gweld nad oedd dim yn bod arno. Wedi edrych ar lawlyfr y car, mi ddeallais fod ynddo switsh sy'n gwneud i'r goleuadau weithio'n otomatig. Mae'n amlwg i mi bwyso'r switsh hwnnw'n anfwriadol, a bod y goleuadau wedyn yn eu rheoli eu hunain yn hytrach nag ymateb i'r hyn yr oeddwn i yn ei wneud. Pe byddwn wedi darllen y llawlyfr, mi fyddwn yn gwybod am y golau clyfar hwn. Ac mae'n debyg fod yna sawl peth arall na wn i amdanynt am nad ydw i wedi trafferthu i ddarllen y llawlyfr. Bydd yn ddifur iawn gwybod beth ydynt.

Un a fyddai'n deall hyn yn iawn oedd yr emynydd Robert ap Gwilym Ddu. Bu farw yn 1850, heb fod erioed yn berchen ar gar wrth gwrs, ond gallai'n sicr ddeall fy rhyfeddod o ddarllen y llawlyfr a dysgu rhywbeth newydd am y car. Wedi'r cwbl, fe ganodd yntau am brofiad o ddysgu pethau newydd, a hynny am rywbeth llawer iawn mwy na golau car:  
'Mhen oesoedd rif y tywod mân ni fydd y gân ond dechrau;  
rhyw newydd wyrth o'i angau drud a ddaw o hyd i'r golau.'

Nid yw'r emyn yn cyfeirio at y Beibl, ond mae a wnelo llawlyfr Duw â'r gweld o'r newydd hwn. Trwy ddarllen Gair Duw a thrwy fyfyrto ynddo y cai'r emynydd olwg newydd o hyd ac o hyd ar farwolaeth Iesu Grist. Ac nid yn unig ar farwolaeth Crist, ond hefyd ar ei berson a'i eiriau a'i waith.

Tybed ai'r un yw ein profiad ninnau? Ydym ni'n dal i weld pethau newydd am Iesu? Ydi cariad Duw yn dal i'n rhyfeddu? Ydym ni'n dal i synnu wrth gael rhyw olau newydd ar yr Efengyl? Os nad, tybed ai'r rheswm dros hynny yw nad ydym yn darllen y llawlyfr? Ydi Gair Duw, fel llawlyfr y car, wedi ei roi o'r neilltu, a ninnau prin yn ei agor heb sôn am fyfyrto ynddo bob dydd? Mae Duw wedi datguddio ei gariad a'i drugaredd mawr yn ei Fab Iesu. Ond gan mai yn y Beibl y mae'r Iesu wedi ei ddatguddio i ni, dim ond trwy'r Gair y cawn oleuni newydd o hyd ar ein Hannwyl Waredwr.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (A), Llanberis  
Nant Padarn (A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mrs Nerys Griffith. Ni fydd Ysgol Sul.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes Ysgol Sul yn Nhalybont heddiw. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Gerallt Lloyd Evans.

Gwasanaethir yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

## Cofion

Anfonwn ein cofion at ein holl aelodau sydd heb fod yn dda. Ar drothwy'r gaeaf, â'r dydd yn byrhau a'r tywydd yn oeri, gweddiwn am ddiogelwch i bobl yn eu cartrefi neu wrth iddynt grwydro o amgylch. Ond gweddiwn yn arbennig dros bobl sydd allan ar y stryd heb do

## Balm o Salm



'Diolchwch i'r ARGLWYDD, oherwydd da yw, ac y mae ei gariad hyd byth. Fel yna dywedded y rhai a waredwyd gan yr ARGLWYDD, y rhai a waredodd ef o law'r gelyn, a'u cynnull ynghyd o'r gwledydd, o'r dwyrain a'r gorllewin, o'r gogledd a'r de ... Yna gwaeddasant ar yr ARGLWYDD yn eu cyfyngder, a gwareddodd ef hwy o'u hadfyd; anfonodd ei air ac iachaodd hwy, a gwareddodd hwy o ddistryw. Bydded iddynt ddiolch i'r ARGLWYDD am ei gariad, ac am ei ryfeddodau i ddynolryw. Bydded iddynt ddod ag offrymau diolch, a dweud am ei weithredoedd mewn gorfoledd' (Salm 107:1-3; 19-22).

uwch eu pen. Boed i bob ymdrech a wneir gennym ni ac eraill i ymgeleddu pobl fregus ac anghenus fod dan fendith Duw ei hun. 'Rho nerth i ni, O Dduw, i gynorthwyo eraill yn enw Iesu Grist.'

## Rehoboth

Yn ystod yr oedfa yn Rehoboth heddiw, bydd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth yn dod atom i arolygu'r bleidlais ynglyn â dyfodol yr Achos.

Byddwn yn dechrau'r broses heddiw trwy gynnal pleidlais gychwynnol. Mae'r broses yn gymhleth, ond yr ydym yn gobeithio cynnal y bleidlais derfynol cyn diwedd y flwyddyn.

Mae dyfodol yr Achos yn Rehoboth wedi bod yn bryder ers sawl blwyddyn erbyn hyn, ond erbyn hyn mae'n anodd iawn gweld bod modd parhau fel yr ydym ar hyn o bryd. Gwyddom fod cau capel yn benderfyniad mawr, ond ni welwn fod dewis arall yn bosibl gwaetha'r modd. Byddwn yn gofyn i'r aelodau benderfynu pa ffordd orau i wneud hynny.

## Cartref newydd eglwys Deiniolen

Os bydd popeth yn ôl y disgwyl, bydd gwerthiant adeiladau Ebeneser (y capel a'r festri) yn cael ei gwblhau yr wythnos hon pan fydd y darpar brynwyr yn talu gweddill yr arian. Fe dalwyd blaendal ddiwrnod yr Ocsiwn.

Rhagwelwn felly mai'r oedfa heno fydd yr olaf yn Ebeneser, ac y byddwn o'r Sul nesaf ymlaen yn cynnal ein hoedfaon yn y Llyfrgell yn Nhŷ Elidir. Bydd yr oedfa y Sul nesaf yng ngofal Mr Robert Morris, Penygroes, am 5.00 o'r gloch.

## Ebeneser

Gan fod angen gwared â'r dodrefn a'r llestri ac ati yn festri Ebeneser cyn y byddwn yn trosglwyddo'r adeiladau i'r perchnogion newydd, mae cyfle i aelodau Ebeneser ddatgan diddordeb mewn prynu neu gael unrhyw un neu fwy o'r pethau hynny. Er enghraifft, bydd meinciau'r festri ar werth.

Trefnwyd dau gyfle i'r aelodau ddatgan diddordeb yn y pethau sydd i'w gwared. Bydd y festri yn agored nos Wener nesaf, Tachwedd 9, rhwng 6.00 ac 8.00 o'r gloch; ac yna, fore Sadwrn, Tachwedd 10, rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch.

Pwysleisir mai cyfle i ddatgan diddordeb ac i wneud cynigion i brynu eitemau fydd nos Wener a dydd Sadwrn. Nid mater o'r 'cyntaf i'r felin' fydd hi o gwbl; ac felly does dim gwahaniaeth ai nos Wener ynteu dydd Sadwrn y bydd pobl yn dod yno. Wedi i bawb gael cyfle i ddatgan diddordeb, bydd rhaid i Bwyllgor y Capel benderfynu sut i ddsbarthu'r cyfan mor deg a chywir â phosibl. Bydd yr holl arian a dderbynnir am y cyfan yn mynd i goffrau'r eglwys wrth gwr. Pwysleisir hefyd fod arnom gyfrifoldeb i geisio gwared â'r cyfan er y budd mwyaf posibl i'r eglwys.

## Bocsus esgidiau Teams 4 U

Bydd cyfle eleni eto i anfon anrhegion Nadolig mewn bocs esgidiau i blant mewn gwledydd tramor. Eleni, bydd y bocsus yn cael eu hanfon at blant a phobl ifanc a theuluoedd yn Romania, Belarws, Bosnia a'r Wcrain. Mae taflenni ar gael sy'n egluro beth ellir ei roi yn y bocs ac ar gyfer pa oedran. Cofiwch fod modd gwneud bocs ar gyfer teulu yn hytrach na phlentyn unigol. Mae'r manylion yn y taflenni.

Bydd angen i'r cwbl fod yn barod erbyn nos Sul, Tachwedd 18, mewn pryd i'w danfon i Gyffordd Llandudno yr wythnos honno. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r Gweinidog.

## Apêl Madagascar

Cyflwynwyd Apêl Madagascar 2018-19 Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Aberaeron ym mis Mehefin.

Mae'r Annibynwyr, fel sawl enwad arall, wedi arfer â threfnu apeliadau arbennig bob rhyw dair neu bedair blynedd er mwyn cefnogi ymdrechion Cymorth Cristnogol i gynorthwyo pobl mewn gwlad benodol. Mae Apêl Madagascar eleni yn wahanol am nad oes a wnelo Cymorth Cristnogol ddim â hi. Y rheswm syml am hynny yw nad oes gan Gymorth Cristnogol brosiectau na gweithwyr ym Madagascar. Ond er mwyn cofio a dathlu'r ffaith fod 200 o flynyddoedd ers i genhadon o Gymru fynd â'r Efengyl gyntaf i Madagascar, yr oedd yr Undeb yn awyddus i gefnogi gwaith Cristnogol ar yr ynys honno eleni.

Bydd yr Apêl yn codi arian at brosiectau ym Madagascar. Bydd yr Undeb yn cydweithio â'r FJKM ('Eglwys Iesu Grist ym Madagascar') er mwyn sicrhau blwyddyn lwyddiannus o ymgyrchu.